The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet.**

**Trydedd rownd o gwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ3)**
**Cyhoeddwyd ar 15 Awst 2023**

Mae’r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) – ExQ3. Os bydd angen, ceir cyhoeddi rhagor o gwestiynau ysgrifenedig o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi’i seilio ar faterion sy’n deillio o’r Asesiad Cychwynnol o Brif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad C i’r llythyr Rheol 6 dyddiedig 20 Chwefror 2023. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i’r afael â’r asesiad o’r cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba Bartïon â Buddiant (IPs) ac unigolion eraill y mae pob cwestiwn wedi’i gyfeirio. Byddai’r ExA yn ddiolchgar pe gallai’r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw’r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i’w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy’n dechrau gyda rhif 3 (sy’n dangos ei fod yn perthyn i ExQ3) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar Faterion Cyffredinol a Thrawsbynciol fel Q3.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu’r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fwy o gwestiynau, byddai’n ddefnyddiol i’r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi’i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o’r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y Tîm Achos: cysylltwch â hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk gan roi **Piblinell Carbon Deuocsid HyNet** yn llinell bwnc eich neges e-bost.

Mae nifer o Derfynau Amser wedi diwethaf a Chyflwyniadau Ychwanegol wedi'i dderbyn, gan gynnwys Ceisiadau Newid. Efallai y bydd y rhain eisoes yn ateb rhai o'r cwestiynau a nodir isod. Pe bai hynny'n wir, nid yw'r ExA yn ystyried bod angen ateb y cwestiwn hwnnw'n llawn, yn hytrach byddai'r ExA yn gofyn i'r ateb i'r cwestiwn hwnnw gyfeirio at ble yn union mae'r ateb/gwybodaeth eisoes wedi'i darparu (hy Teitl Dogfennau, Rhif Cyfeirnod Dogfen Ymgeisydd, Arolygiaethau Cynllunio Rhif Cyfeirnod, Rhif Paragraff , Rhif Tabl, ac ati.)

**Mae’n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mawrth 5 Medi 2023.**

**Talfyriadau a ddefnyddir:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AGI** | Gosodiad ar Ben y Tir | **ExQ3** | Trydydd Cwestiynau Ysgrifenedig yr ExA |
| **BNG** | Enillion Bioamrywiaeth Net | **HRAR** | Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **BVS** | Gorsaf Falfiau Bloc | **HSE** | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| **$CO_2$** | Carbon Deuocsid | **FCC** | Cyngor Sir y Fflint |
| **CWCC** | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer | **IPs** | Partïon â Buddiant |
| **DCO** | Gorchymyn Caniatâd Datblygu | **CNC** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **DL** | Terfyn Amser | **REAC** | Cofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol |
| **EA** | Asiantaeth yr Amgylchedd | **SoS** | Ysgrifennydd Gwladol |
| **EIA** | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | **SoCG** | Datganiad Tir Cyffredin |
| **ES** | Datganiad Amgylcheddol | **WFD** | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| **ExA** | Awdurdod Archwilio | | |

**Llyfrgell yr Archwiliad**

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael trwy'r ddolen ganlynol:

https:C/infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN070007/EN070007-001186-HyNet%20Carbon%20Dioxide%20Pipeline%20Bilingual%20Examination%20Library.pdf.

Caiff ei diweddaru wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

**Cyfeirio at Gwestiynau**

Dylid cyfeirio at gwestiynau yn y tabl hwn fel a ganlyn:

Cyfeirnod y cwestiwn: cyfeirnod y mater: rhif y cwestiwn, e.e. mae Q3.1.1 yn cyfeirio at gwestiwn 1 yn y tabl hwn.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Mynegai**


1. **Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol ............... 4**
2. **Asesu Dewisiadau Amgen...................................... 5**
3. **Ansawdd Aer ac Allyriadau ................................... 8**
4. **Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ... 9**
5. **Newid yn yr Hinsawdd.......................................... 9**
6. **Caffael Gorfodol, Meddiant Dros Dro ac Ystyriaethau Tir neu Hawliau Eraill ....................... 9**
7. **Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol ...................................................... 12**
8. **Dyluniad a Gosodiad.......................................... 12**
9. **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/ Datganiad Amgylcheddol.................................................. 12**
10. **Perygl Llifogydd, Hydroleg, Adnoddau Dŵr a Halogiad ........................................................... 12**
11. **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ......................... 15**
12. **Tirwedd a Gweledol........................................... 15**
13. **Adnoddau Mwynau ............................................ 15**
14. **Sŵn a Dirgryniad............................................... 15**
15. **Polisi Cynllunio................................................. 15**
16. **Effeithiau Economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys Iechyd y Boblogaeth ac Iechyd Dynol... 16**
17. **Trafnidiaeth a Thraffig ...................................... 16**
18. **Rheoli Gwastraff ............................................... 16**
19. **Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft .................. 16**
20. **Arall ................................................................ 18**

**ExQ3: 15 Awst 2023**

**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mawrth 5 Medi 2023**

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| **1.** | **Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol** | |
| Q3.1.1 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd** | • O ystyried nad oes llawer o amser ar ôl yn yr Archwiliad, mae'r ExA yn nodi nad yw'r Ymgeisydd wedi cyflwyno nifer sylweddol o Ddatganiadau Tir Cyffredin (SoCG) wedi'u cwblhau. Gofynnir i chi roi gwybod pryd y bwriedir symud ymlaen â'r SoCG sy'n weddill a'u cyflwyno'n gyflawn i'r Archwiliad. |
| Q3.1.2 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd**<br>**Llywodraeth Cymru** | • Dywedir ym Mhennod 2 y Datganiad Amgylcheddol (ES) nad yw'r gyfundrefn Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yng Nghymru yn caniatáu i eitemau gael eu dosbarthu fel Datblygiad Cysylltiedig a'u cynnwys mewn DCO.<br>• Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r Ymgeisydd yn amlinellu maes lle yr anghytunir â Llywodraeth Cymru ynglŷn â ph'un a all Gorsafoedd Falfiau Bloc (BVSs) fel Datblygiad Cysylltiedig gael eu sicrhau a'u cynnwys yn y DCO. Yn unol â hynny, mae'r Ymgeisydd hefyd wedi ceisio ymagwedd llwybr deuol at sicrhau datblygiad cysylltiedig o'r fath os na fydd telerau'r DCO yn gallu ymdrin â'r elfennau penodol hynny sy'n destun dadl.<br>• O ystyried yr anghytundeb sy'n amlwg ynglŷn â BVSs, beth yw'r rhesymau penodol pam mae'r Ymgeisydd yn credu y gall y datblygiad Gosodiadau ar Ben y Tir (AGIs) gael ei gynnwys mewn Datblygiad Cysylltiedig (os bydd angen) yn y DCO?<br>• A yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd ar AGIs yn y DCO yn berthynol i ambarél Datblygiad Cysylltiedig? |
| Q3.1.3 | *Gwybodaeth*<br>**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**<br>**Cyngor Sir y Fflint (FCC)**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**IPs** | • Mae'r ExA yn deall bod CNC wedi sefydlu Partneriaeth Natur Greadigol flaenorol (yn gysylltiedig â Chyngor Celfyddydau Cymru). A yw'r bartneriaeth natur honno'n parhau i fod ar waith ar hyn o bryd ac yn cael ei gweithredu trwy brosiectau byw?<br>• Disgwylir i CNC fod yn cefnogi'r nodau a gynhwysir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant amgylcheddol, diwylliannol, economaidd, ffisegol, a meddyliol pobl Cymru.<br>• Yn eich barn chi, a fyddai ystyriaethau amgylcheddol ynglŷn â natur a'r amgylchedd dŵr yn ffurfio rhan o'r disgwyliadau diwylliannol a nodir yn y Ddeddf hefyd?<br>• Mae'r ExA yn ceisio cael dealltwriaeth ddyfnach o unrhyw agweddau/ goblygiadau diwylliannol y byddai'r cynllun DCO yn arwain atynt, trwy wahodd CNC neu Lywodraeth Cymru neu unrhyw IPs eraill i wneud pa sylwadau bynnag yr ystyrir eu bod yn briodol wrth ystyried y diffiniadau a'r derminoleg sy'n berthnasol yn y Ddeddf. |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | • A ydych chi'n credu bod yr Ymgeisydd wedi gwneud digon i fodloni'r disgwyliadau diwylliannol a ysgogir gan y cynllun? |
| **2.** | **Asesu Dewisiadau Amgen** | |
| Q3.2.1 | *Gwybodaeth – dewisiadau amgen/ coetir hynafol a Fferm New Bridge*<br>**Yr Ymgeisydd**<br>**FCC**<br>**Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC)**<br>**CNC**<br>**Coed Cadw**<br>**IPs** | • Er mwyn osgoi effeithiau uniongyrchol ar danc slyri presennol ar Fferm New Bridge y cyfeirir atynt yng nghyflwyniadau DL4, nodir bod dau opsiwn ar gyfer aliniad dangosol Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint wedi cael eu hystyried ar wahân. Mae'r ddau yn gofyn am yr un estyniad i'r Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd i'r Gogledd-orllewin a'r Gorllewin, tuag at y Coetir Hynafol i'r de o Holywell Road. Y ddau opsiwn dylunio a gynigir yw:<br>• *PS02a – Symud y tanc slyri ar Fferm New Bridge ymaith a byddai'r biblinell yn cael ei hadeiladu y tu allan i lain glustogi 15m y Coetir Hynafol o fewn aliniad dangosol Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint.*<br>• *PS02b – Cadw'r tanc slyri ar Fferm New Bridge yn ei leoliad presennol ac adeiladu'r biblinell ymhellach i'r Gogledd-orllewin a'r Gorllewin nag aliniad dangosol Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint. Byddai'n aros y tu allan i'r Coetir Hynafol ei hun, ond byddai angen gweithio o fewn 15m o'r Coetir Hynafol.*<br>**Yr Ymgeisydd**<br>• O ystyried opsiwn arfaethedig PS02b, esboniwch ba waith penodol y byddai ei angen o fewn llain glustogi 15m y Coetir Hynafol.<br>• Pa mor bell y byddai gwaith o'r fath yn ymwthio i'r llain glustogi?<br>• A fyddai unrhyw fesurau lliniaru'n cael eu defnyddio i wrthbwyso unrhyw ymwthiad disgwyliedig? Ac a yw'r effaith bosibl yn cael ei hadlewyrchu'n gywir yn y wybodaeth wedi'i diweddaru am yr effaith ar goed sy'n cefnogi'r cais? Os felly, cyfeiriwch at y wybodaeth honno.<br>• Beth yw safbwynt presennol yr Ymgeisydd ynglŷn â'r opsiwn a ffefrir ganddo?<br>• A ddisgwylir i'r safbwynt a ffefrir gan yr Ymgeisydd newid?<br>**IPs**<br>• Gwnewch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn angenrheidiol. |
| Q3.2.2 | *Gwybodaeth – dewisiadau amgen/ coed hynod a Nant Backford*<br>**Yr Ymgeisydd** | • O ystyried y dewisiadau amgen sy'n bosibl i leihau effeithiau ar goed hynod yn Nant Backford y cyfeirir atynt yn ymatebion yr Ymgeisydd i DL4. Mae'r ExA yn nodi:-<br>• *Bod Opsiwn 1 yn croesi Nant Backford a'r coed hynod cyfagos trwy groesfan ddi-ffos. Byddai hyn yn gofyn am groesfan ddi-ffos 75 metr o hyd o leiaf i osgoi'r coed hynod a* |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | **FCC**<br>**CWCC**<br>**CNC**<br>**Coed Cadw**<br>**IPs** | *120 metr i osgoi'r holl goed a chynnal pellter diogel oddi wrth y cyfleustodau claddedig presennol gerllaw. Er mwyn lleihau risgiau adeiladu a chynnal a chadw, dylid lleihau croesfannau di-ffos o ran swm a hyd i'r eithaf, ac felly dylid eu defnyddio dim ond lle nad oes datrysiad peirianegol amgen ymarferol yn bodoli.*<br>• *Bod Opsiwn 2 yn ymestyn y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd i'r Gogledd a fyddai'n cynyddu lled coridor y biblinell i leihau effeithiau ar goed hynod i'r gorllewin o Nant Backford. Cynhaliwyd arolygon coed ychwanegol o'r ardal hon ym mis Ionawr 2023 ac mae aliniad dangosol Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint wedi cael ei ailalinio er mwyn helpu i osgoi cael gwared ar goed hynod yn y lleoliad hwn, yn amodol ar ddyluniad manwl. Mae'r opsiwn hwn yn osgoi pedair coeden hynod o gymharu â Diwygiad A yr ES a dyma'r opsiwn a ffefrir gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd.*<br>• A all yr Ymgeisydd esbonio ymhellach ei resymau dros ei Opsiwn a ffefrir mewn perthynas â gwarchod coed hynod a lleihau colled neu ddifrod i'r eithaf?<br>• Pa Opsiwn fyddai'n lleiaf niweidiol i goed? A fyddai Opsiwn 1 yn achosi llai o niwed i goed hynod nag Opsiwn 2? Esboniwch sut.<br>• A yw Opsiwn 1 yn opsiwn wrth gefn ar gyfer yr Ymgeisydd bellach? Os felly, esboniwch pam.<br>• Beth yw safbwynt presennol yr Ymgeisydd o ran gallu gweithredu Opsiynau 1 neu 2 yn llwyddiannus o ystyried y bwriedir i'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) ganfod y canlyniad lleiaf niweidiol i'r amgylchedd yn y pen draw?<br>**IPs**<br>• Gwnewch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn angenrheidiol. |
| Q3.2.3 | *Dewisiadau Amgen – Nant Alltami*<br>**CNC**<br>**FCC**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**IPs** | • Nid yw'r Ymgeisydd yn ystyried bod ail-lwybro i'r de o'r A55 yn opsiwn hyfyw o ganlyniad i bresenoldeb Coetir Hynafol a chwarel glai. At hynny, nid yw osgoi Nant Alltami yn opsiwn ymarferol ar gyfer llwybr y biblinell ym marn yr Ymgeisydd. Ystyriwyd bod yr opsiynau di-ffos yn cynrychioli risg uchel a chost uchel o ganlyniad i bresenoldeb gweithfeydd glo, topograffeg arw, a'r potensial i ddod ar draws dŵr mwynglawdd llygredig. Er y byddai'r dull ffos agored yn achosi effeithiau adeiladu arwyddocaol, byddai'n osgoi'r risg tymor hir i ddiogelwch cyhoeddus a'r effeithiau gweledol sy'n gysylltiedig â phont biblinell, ac yn arwain at newidiadau tymor hir lleiafsymiol i'r llif sy'n gysylltiedig â gosod cwlfert.<br><br>• A yw CNC ac IPs yn cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd? Os na, nodwch pam. |

**ExQ3: 15 Awst 2023**

**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mawrth 5 Medi 2023**

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | |
| Q3.2.4 | *Dewisiadau Amgen – Nant Alltami*<br>**CNC**<br>**FCC**<br>**IPs** | • O ystyried safbwynt CNC nad yw'r dull ffos agored a gynigir gan yr Ymgeisydd yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (nad yw'r Ymgeisydd yn cytuno ag ef), mae opsiwn dylunio arall yn bosibl a fyddai'n defnyddio datrysiad pont biblinell ymgorfforedig.<br>• Os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn casgliadau'r asesiad WFD a gyflwynwyd ac yn penderfynu na ellir cymhwyso rhanddirymiad, mae'r Ymgeisydd yn cynnwys opsiwn amgen yn y cais heb ymrwymiad.<br>**CNC**<br>• A fyddai'r opsiwn piblinell ymgorfforedig yn ddatrysiad amgen ymarferol i oresgyn eich pryderon? Esboniwch y rhesymau pam.<br>• A ellir cymhwyso achos rhanddirymiad ategol yr Ymgeisydd yn llwyddiannus?<br>**IPs**<br>• Gwnewch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn angenrheidiol. |
| Q3.2.5 | *Dewisiadau Amgen – Nant Alltami*<br>**CNC**<br>**IPs** | • Mae'r ES Pennod 4 Paragraff 4.5.64 yn amlinellu'r dulliau amgen a ystyriwyd ar gyfer croesi Nant Alltami. Dull adeiladu ffos agored yw'r opsiwn a ffefrir gan yr Ymgeisydd o hyd ar gyfer croesi Nant Alltami. Er hynny, byddai hyn yn cael effeithiau dros dro sylweddol ar y cwrs dŵr o hyd.<br>• Mae'r ExA yn nodi y cynigir mesurau lliniaru a fyddai'n lleihau lled gweithio cyffredinol a lled y ffos, yn ogystal â microleoli i'r rhan leiaf sensitif o wely'r afon, fel yr amlinellir yn Nhabl 4.8 ac a fanylir yn y Gofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol (REAC).<br>**CNC**<br>• Pam byddai effeithiau dros dro'r dull torri agored, o safbwynt WFD, yn annerbyniol yn dilyn unrhyw fesurau lliniaru a allai gael eu cymhwyso?<br>• Yn arbennig, pam byddai llenwi unrhyw graciau tywodfaen â growt (fel mesur lliniaru) yn anaddas, yn eich barn chi, os yw'r Ymgeisydd yn defnyddio deunyddiau, technegau a safonau adeiladu modern?<br>• A oes unrhyw fesurau lliniaru eraill y byddai CNC yn eu hargymell ar gyfer y dull torri agored pe dderbynnir ei fod yn cydymffurfio â'r WFD?<br>• Beth yw'r dull croesi a ffefrir gan CNC yn seiliedig ar yr hyn a gyflwynwyd ac sy'n hysbys ar hyn o bryd? Esboniwch pam y byddai dull(iau) o'r fath yn opsiwn gwell, yn |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | eich barn chi, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn berthynol i unrhyw ansicrwydd.<br>• A fyddai cyflwyno rhagor o wybodaeth yn gwneud unrhyw un o'r opsiynau eraill yn ymarferol o safbwynt diogelu adnodd dŵr? Os felly, pa wybodaeth fyddai'n cyflawni hynny a pha opsiynau croesi eraill y mae'n berthnasol iddynt?<br>• Gwahoddir CNC i amlinellu ei ymagwedd at gyflawni'r canlyniad gorau o ran y manylion croesfan sy'n destun dadl ochr yn ochr â'r gwelliannau glannau afon gorau y gellid eu sicrhau.<br>**IPs**<br>• Gwnewch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn angenrheidiol. |
| **3.** | **Ansawdd Aer ac Allyriadau** | |
| Q3.3.1 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r ExA yn nodi'r trefniadau archwilio diogelwch a chynnal a chadw disgwyliedig a fanylir yn yr ES Pennod 3 Tabl 3.4.<br>• Mewn perthynas â'r rheiny, am ba hyd y byddai'r strwythur(au) awyrellu dros dro a ddisgrifir yn neunydd y cais yn cael eu codi?<br>• Beth yw dimensiynau mwyaf y strwythur(au) hynny? Ac a fyddent yn agored i unrhyw newid arall o ystyried unrhyw ddeddfwriaeth amgylcheddol sydd i ddod?<br>• Eglurwch a fyddai un strwythur awyrellu symudadwy yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob lleoliad perthnasol y mae angen ei awyrellu neu a fyddai sawl strwythur yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw un adeg.<br>• Esboniwch sut byddai'r strwythur(au) awyrellu dros dro yn cael eu cludo i'r lleoliadau sy'n ofynnol ac oddi yno, ac esboniwch sut byddent yn cael eu symud ymaith o holl dir y DCO wedi hynny.<br>• Pa fesurau (gan gynnwys llwybro cerbydau mawr) fyddai'n cael eu defnyddio i leihau aflonyddu ar drydydd partïon gymaint â phosibl tra bod y strwythurau awyrellu a'r offer cysylltiedig yn cael eu cludo?<br>• Sut mae mesurau o'r fath yn cael eu ffurfioli yn y DCO? |
| Q3.3.2 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd** | • O ran y Carbon Deuocsid ($CO_2$) y disgwylir iddo gael ei ryddhau yn ystod unrhyw ymarfer awyrellu cynnal a chadw arferol (neu ymweliadau tebyg), beth yw'r cyfaint mwyaf o $CO_2$ y disgwylir iddo gael ei ryddhau? Os yw'n amrediad o werthoedd, rhowch yr amrediad. Nodwch yr amrediad neu'r gwerth yn ystod cyfnod rhyddhau pob ymarfer awyrellu unigol ac am ba mor hir y byddai'n para. Nodwch hefyd y gwerth/ yr amrediad ar gyfer nifer o gyfnodau awyrellu wedi'u cyfuno y flwyddyn (neu fel arall). |

**ExQ3: 15 Awst 2023**

**Mae’n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mawrth 5 Medi 2023**

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | • Sut gellir dibynnu ar gyfrifiadau cyfaint disgwyliedig yr Ymgeisydd ar gyfer y $CO_2$ y disgwylir iddo gael ei ryddhau fod yn gywir yn ystod awyrellu?<br>• Pa ddarpariaeth a wneir i sicrhau na fyddai mwy o $CO_2$ na hwnnw a ddatganwyd yn dianc trwy gynnal a chadw awyrellu yn y dyfodol? |
| **4.** | **Bioamrywiaeth, Ecoleg a’r Amgylchedd Naturiol** | |
| Q3.4.1 | **Yr Ymgeisydd** | • Nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymddangos yn y rhestr o ddeddfwriaeth a roddir yn adran Bioamrywiaeth yr ES.<br>• Mae’r ExA yn ceisio eglurhad gan yr Ymgeisydd i sicrhau bod telerau’r Ddeddf yn cael eu hystyried yn llawn yn yr asesiad o’r datblygiad DCO ac unrhyw fesurau lliniaru dilynol a osodir o bosibl.<br>• A all yr Ymgeisydd gadarnhau/ egluro sut mae telerau’r Ddeddf wedi cael eu cymhwyso yn yr holl fesurau lliniaru bioamrywiaeth hyd yma?<br>• A fyddai cadarnhad/ eglurhad yr Ymgeisydd hefyd yn ymestyn i’r holl opsiynau croesi a mesurau lliniaru cyrsiau dŵr sy’n destun asesiad WFD? |
| **5.** | **Newid yn yr Hinsawdd** | |
| Q3.5.1 | *Gwybodaeth – rheoli pridd yn y dyfodol*<br>**Yr Ymgeisydd**<br>**FCC**<br>**CWCC**<br>**IPs** | • Eglurwch ymhellach sut byddai’r datblygiad yn llwyddo i liniaru yn erbyn y tebygolrwydd o briddoedd yn crebachu a chracio o fewn ardal y cais DCO yn ystod cyfnod gweithredu’r cynllun?<br>• Beth yw canlyniadau hysbys mesurau lliniaru annigonol? Er enghraifft, a fyddai gallu presennol y pridd i atafaelu carbon yn cael ei leihau’n sylweddol mewn ardaloedd o dir yr effeithir arnynt?<br>• A fyddai unrhyw fesurau atgyfnerthu gwrychoedd newydd a ddisgwylir ar hyn o bryd yn hybu gallu’r pridd i atafaelu carbon trwy gryfhau rhwydweithiau microbaidd/ ffwngaidd presennol? Os felly, ble mae’r lleoliadau gorau ar gyfer gwrychoedd newydd neu wedi’u hatgyfnerthu mewn perthynas â’r cynllun DCO? |
| **6.** | **Caffael Gorfodol, Meddiant Dros Dro ac Ystyriaethau Tir neu Hawliau Eraill** | |
| Q3.6.1 | *Adolygu*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae’r ExA yn nodi nad yw Terfynau’r Gorchymyn o amgylch AGI Stanlow wedi’u tynnu’n dynn o amgylch y Rhifau Gwaith cysylltiedig (gweler Rhifau Gwaith 7, 9, 9A a 10). Fodd bynnag, mae’r Cynlluniau Tir yn dangos bod yr Ymgeisydd yn ceisio caffael hawliau’n barhaol dros y tir (tir y tu allan i'r Trwyn Gwaith, ond o fewn Terfynau'r Gorchymyn yn y lleoliad hwn). Esboniwch yn llawn pam mae’r Ymgeisydd yn ceisio caffael hawliau’n |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | barhaol dros y tir hwn ei gynnwys yn y DCO, a pham nad yw’r Cynlluniau Tir yn y lleoliadau hyn yn adlewyrchu terfynau’r Rhifau Gwaith a nodir uchod. |
| Q3.6.2 | *Gwybodaeth*<br>**National Highways** | • Rhowch ymateb llawn ac ystyriol i'r 'Sylwadau'r Ymgeisydd ar gyflwyniadau a wnaed ar Ddyddiad Cau 5 - Atodiad A' [REP6-035]. |
| Q3.6.3 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • O ran Rhif Plot 17-02, byddai'r ExA yn gofyn am eglurhad ynghylch dadleuon yr ymgeisydd ynghylch gosod y gwaith draenio. Ar y naill law ymddengys bod yr Ymgeisydd yn honni y bydd y gosodiad yn cael ei wneud gan ddefnyddio pwerau TP (gweler paragraff 6.19 o REP4-264), ond ar y llaw arall mae'n dyfynnu a.132(3) Deddf Cynllunio 2008. A allai'r ymgeisydd egluro pa un y mae'n bwriadu dibynnu arno a pham?<br><br>Yn ogystal, byddai'r ExA yn nodi y byddai'n ymddangos bod a.132(3) yn tanseilio dadleuon yr Ymgeisydd ei hun nad yw isbridd yn fan agored. Os gwelwch yn dda ymateb? |
| Q3.6.4 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Nodir dadl yr ymgeisydd nad yw'r is-wyneb yn ofod agored ac nad yw a.131 PA2008 yn berthnasol i CA arfaethedig yr is-wyneb ar gyfer naill ai'r biblinell neu'r gwaith draenio yn cael ei nodi. Mae'n dadlau bod hyn oherwydd:<br>- Nid yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden ac felly nid yw'n dod o fewn y diffiniad o "fan agored" gan "nad oes unrhyw gaffaeliad arfaethedig nac ymyrraeth â'r man agored y mae a.131 yn ei amddiffyn"; a<br>- Mewn unrhyw achos, gellir gwahanu strata tir o safbwynt cyfreithiol gyda, er enghraifft, isbridd a/neu ofod awyr yn wahanadwy oddi ar wyneb y tir dan sylw. Mewn geiriau eraill, nid yw'r ffaith bod wyneb plot 17-02 yn ofod agored yn golygu y gellir gwahanu'r iswyneb oddi wrtho o safbwynt cyfreithiol.<br>Mae adran 131 (12) a 132(12) Deddf Cynllunio 2008 yn nodi'n glir bod gan "man agored" yr un ystyr ag yn a.19 Deddf Caffael Tir 1981. Mae A.19(4) yn diffinio "man agored" fel "*<u>unrhyw dir a osodwyd</u> allan fel gardd gyhoeddus, neu a ddefnyddir at ddibenion hamdden gyhoeddus......*" O ran y ffeithiau, mae'n amlwg bod plot 17-02 yn cynnwys neu'n cynnwys "man agored" yn y diffiniad hwn. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2008 na Deddf Caffael Tir 1981 yn cadarnhau'n benodol a yw "man agored" yn |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | cynnwys rhywfaint o'r isbridd isod neu le awyr uchod. Yn yr un modd, nid yw'r ExA wedi gallu dod o hyd i unrhyw gyfraith achos ar y pwynt.<br><br>Gall yr ExA weld dadleuon y naill ffordd neu'r llall.<br><br>I gefnogi safle'r ymgeisydd mae'r ffeithiau nad yw is-wyneb plot 17-02 yn cael ei ddefnyddio "at ddibenion hamdden gyhoeddus" a'r ffaith ei bod yn wir yn bosibl gwahanu perchnogaeth tir o berchnogaeth yr isbridd oddi tano (er enghraifft ar gyfer cloddio tanddaearol).<br><br>Fodd bynnag, ar y llaw arall, mae rhagdybiaeth gyffredinol mewn cyfraith tir (wedi'i grynhoi'n ddefnyddiol gan y Goruchaf Lys ym Mwrdeistref Llundain Southwark a v Transport for London [2018] UKSC 63) “*Nodwedd sylfaenol o gludo neu drosglwyddo tir rhydd-ddaliad trwy gyfeirio at ardal arwyneb a nodwyd yw, oni bai bod cyd-destun neu iaith y grant fel arall yn gofyn neu'n darparu (e.e.. trwy gadw mwynau), ei effaith yw breinio yn y trosglwyddai nid yn unig wyneb y ddaear, ond yr isbridd i lawr (o leiaf mewn theori) i ganol y ddaear a'r gofod awyr i fyny (o leiaf mewn theori) i'r nefoedd. Wedi'i weld yn blân fertigol, mae'r trosglwyddai yn caffael perchnogaeth nid yn unig o'r sleisen ar yr wyneb ond o'r gofod cyfan uwch ei phen, a'r ddaear islaw.".*<br><br>Mewn geiriau eraill, dim ond at ddibenion cyfreithiol y mae tir a'r isbridd perthnasol yn cael eu gwahanu at ddibenion cyfreithiol mewn rhai amgylchiadau penodol a chan nad oes unrhyw amlwg yma, byddai hyn yn awgrymu bod yr isbridd i blotio 17-02 hefyd yn "fan agored". Os felly, mae'r ExA o'r farn anffurfiol y byddai Gweithdrefn Seneddol Arbennig yn berthnasol i CA arfaethedig yr is-wyneb oni bai bod unrhyw un o'r eithriadau yn a.131 yn berthnasol.<br><br>• Yng ngoleuni hyn pam y dylai'r ExA dderbyn barn yr ymgeisydd nad yw isbridd plot 17-02 yn ofod agored ac nad yw'r Weithdrefn Seneddol Arbennig yn a.131 o PA 2008 yn berthnasol wrth ystyried y CA arfaethedig yr isbridd ar gyfer y biblinell (a hefyd ar gyfer y draen tanddaearol)? |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q3.6.5 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mewn perthynas â CA hawliau dros blot 17-02 (gosod y cyfamod cyfyngol), mae'r ymgeisydd yn dibynnu ar eithriad rhag Gweithdrefn Seneddol Arbennig o dan a.132(3). Fodd bynnag, gallai rhai o elfennau'r cyfamod cyfyngol arfaethedig a geisir cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr y man agored, gan gynnwys y gwaharddiad ar blannu coed yn y dyfodol sy'n ymddangos fel pe bai'n tanseilio'r eithriad a geisir. (h.y.. sut y gellir dadlau na fydd y tir gorchymyn, pan fydd yn faich ar yr hawl gorchymyn, yn llai manteisiol nag yr oedd o'r blaen i'r ..." Pobl a restrir.  Os gwelwch yn dda ymateb? |
| Q3.6.6 | *Eglurhad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Os ceisir hawliau CA, nid yw'r ExA yn glir pam nad yw plot 17-02 wedi'i restru yn Atodlen 8 (Tir lle mai dim ond Hawliau Newydd ac ati, y gellir eu caffael). Eglurwch os gwelwch yn dda? |
| **7.** | **Treftadaeth Ddiwylliannol a’r Amgylchedd Hanesyddol** | |
| Q3.7.1 | *Eglurhad.*<br>**Cadw, Historic England, CWCC, FCC ac Clwyd Powys Archaeological Trust** | • Yng ngoleuni Adroddiad Gwerthuso Archeolegol yr Ymgeisydd [REP4-267], a all IP gadarnhau eu bod yn fodlon â mesurau lliniaru arfaethedig yr Ymgeisydd, fel y nodir yn nhabl 5.1 o'r ddogfen honno? |
| **8.** | **Dyluniad a Gosodiad** | |
| Q3.8.1 | *Nant Alltami*<br>**IPs**<br>**FCC** | • A yw IPs yn fodlon â goblygiadau dylunio opsiynau’r Ymgeisydd ar gyfer dyluniad croesfan pont ymgorfforedig Nant Alltami sy’n deillio o’r ceisiadau i wneud newidiadau?<br>• A oes gan FCC unrhyw sylwadau ynglŷn â chymhwyso’r polisi lletem las i’r groesfan pont bibell ymgorfforedig? A fyddai’r opsiwn hwnnw’n cydymffurfio â’r polisi lleol?<br>• Gwnewch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn briodol. |
| **9.** | **Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol/ Datganiad Amgylcheddol** | |
| Q3.9.1 | *Adnoddau dŵr/ croesfannau*<br>**CNC**<br>**IPs** | • Mae’r Ymgeisydd o’r farn, trwy ei Arfarniad o’r Opsiynau [REP3-039], bod yr asesiad o’r opsiwn pont bibell ymgorfforedig y cyfeirir ato yn yr Archwiliad (heb ymrwymiad) yn dangos nad yw’n sylweddol well o safbwynt amgylcheddol, ac felly y dylid caniatáu rhanddirymiad ar gyfer y groesfan â ffos. A yw’r partïon yn cytuno neu’n anghytuno? Rhowch fanylion llawn yn eich ymateb. |
| **10.** | **Perygl Llifogydd, Hydroleg, Adnoddau Dŵr a Halogiad** | |
| Q3.10.1 | *Adnoddau Dŵr* | • Mae Asesiad WFD yr Ymgeisydd (Atodiad 18.3, Cyfrol III) (a ddiweddarwyd yn DL4) wedi sgrinio ar gyfer effeithiau adeiladu a gweithredol posibl Datblygiad Arfaethedig y |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | **CNC**<br>**Asiantaeth yr Amgylchedd (EA)**<br>**FCC**<br>**CWCC**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**IPs** | DCO ar gyrff dŵr WFD ar gyfer prif afonydd, camlesi, cyrsiau dŵr cyffredin, cyrff dŵr trosiannol, ac amcanion o Gynlluniau Rheoli Basn Afonydd (RBMP) y Gogledd-orllewin ac adnoddau dŵr daear.<br>• Mae hyn yn cynnwys amlygu risgiau tebygol i fioamrywiaeth, ansawdd biolegol, ffisiogemegol a hydroforffolegol cyrff dŵr WFD (gan gynnwys Afon Dyfrdwy, Afon Gowy, Nant Stanney Mill, Camlas Undeb Swydd Amwythig, Finchetts Gutter, Draen Sandycroft, Nant Gwepra), cyrsiau dŵr cyffredin cyfagos ac ansawdd dŵr daear, a gallu tebygol dulliau arfer da i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â llygryddion a brofir yn nodweddiadol yn ystod y cam adeiladu a gweithredu.<br>• A oes unrhyw ddiffygion yn weddill yn Asesiad WFD yr Ymgeisydd? Os felly, esboniwch/ eglurwch beth yw'r diffygion penodol hynny.<br>• Amlinellwch unrhyw feysydd sy'n weddill lle yr anghytunir â chasgliadau Asesiad WFD yr Ymgeisydd, gan roi eich rhesymau llawn/ penodol pam mae anghytundeb yn parhau. |
| Q3.10.2 | *Adnoddau Dŵr*<br>**CNC**<br>**EA**<br>**FCC**<br>**CWCC**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**IPs** | • Yn eich barn chi, yn gyffredinol, a fyddai cynnig datblygu'r Ymgeisydd yn bodloni gofynion yr WFD o ran y dull croesi a ffefrir ganddo? Os na, a ystyrir bod y groesfan amgen a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd yn ymarferol o ran bodloni gofynion yr WFD? Os na, nodwch pam.<br>• Os ystyrir nad yw un o'r dulliau croesi neu'r ddau yn cydymffurfio, rhowch sylwadau ynglŷn â sut byddai'r Ymgeisydd yn gallu gwneud i'r cynllun gydymffurfio â'r WFD. |
| Q3.10.3 | *Adnoddau Dŵr – Nant Alltami*<br>**CNC**<br>**FCC**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**IPs** | • A ydych yn anghytuno ag unrhyw ran o ganfyddiadau Achos Rhanddirymiad WFD Heb Ymrwymiad yr Ymgeisydd ar gyfer Croesfan Nant Alltami [REP5-016] a gyflwynwyd yn DL5?<br>• Os felly, nodwch ba feysydd penodol rydych yn anghytuno â nhw o hyd a'r rhesymau. |
| Q3.10.4 | *Adnoddau Dŵr – Nant Alltami*<br>**IPs** | • A ydych yn anghytuno ag unrhyw un o'r casgliadau a gynhwysir yn nogfen Arfarniad o Effaith Hydroddaearegol Croesfan Toriad Agored – Nant Alltami [REP5-014] yr Ymgeisydd? Os felly, nodwch beth rydych yn anghytuno ag ef a pham. |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q3.10.5 | *Adnoddau Dŵr*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Nododd yr EA yn DL4 yr ymrwymiad, o dan y REAC [REP2-017], i adfer yr holl sianeli a glannau *'i efelychu’r amodau sylfaenol cyn belled ag y bo’n ymarferol er mwyn sicrhau ffurfiau glannau a nodweddion sianeli mwy naturiol ac amrywiaeth forffolegol'* (ES cyf. D-BD-048) y mae gwaith adeiladu’r biblinell yn effeithio arnynt.<br>• Mae’r EA yn cynghori, os canfyddir nad yw’n bosibl/ ymarferol adfer cynefinoedd i’w cyflyrau blaenorol, bod rhaid ceisio mesurau digolledu o fewn yr un corff dŵr WFD. Mae’r ExA yn gofyn i hyn gael ei gydnabod yn y REAC [REP6-006]. Yn unol â hynny, a ellir ymrwymo i’r ddarpariaeth ychwanegol hwnnw a dangos ei fod yn cael ei sicrhau yn y REAC? |
| Q3.10.6 | *Adnoddau Dŵr*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae’r ExA yn nodi mai nod cyffredinol yr WFD yw gwella statws yr holl gyrff dŵr a’u hecosystemau. Yn unol â hyn, argymhellir yn gryf fod yr Ymgeisydd yn ceisio cyfleoedd ar gyfer gwella, lle y bo’n ymarferol ac yn ychwanegol at y rhai a amlinellwyd eisoes, lle y cynigir croesfannau â ffos ar gyrsiau dŵr.<br>• Felly, dylai’r holl fesurau lliniaru a chynigion ar gyfer gwella perthnasol gael eu cofnodi yn yr asesiad WFD, gan gynnwys sut mae’r mesurau arfaethedig yn cyfrannu at amcanion RBMP y Gogledd-orllewin. A all yr Ymgeisydd gyfeirio at y wybodaeth hon neu ddarparu tystiolaeth ychwanegol ohoni? |
| Q3.10.7 | *Adnoddau Dŵr*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae’r EA yn nodi bod dyhead i adferiad Afon Gowy gael ei gyflawni fel un o fesurau lliniaru’r WFD o dan RBMP y Gogledd-orllewin. Mae’n rhaid i’r Ymgeisydd wneud darpariaethau a chamau addas i gefnogi a newid llwybr/ dyfnder y biblinell i sicrhau bod modd cyflawni unrhyw waith posibl yn y dyfodol ar Afon Gowy. A all yr Ymgeisydd egluro sut byddai’n cyflawni’r ymrwymiad hwn trwy ddarpariaethau’r DCO? |
| Q3.10.8 | *Adnoddau Dŵr/ Ymchwiliadau Tir/ Halogiad*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae’r EA yn cynghori eu bod yn mynnu bod mwyafrif y gwaith ymchwilio tir ac asesu ymwthiol yn cael ei wneud cyn y cam dylunio manwl er mwyn sicrhau bod y gyfryw wybodaeth am amodau amgylcheddol lleol yn cael ei deall yn llwyr ac i helpu i lywio cam dylunio manwl y prosiect. Heb wybodaeth fanwl o’r fath, mae’r EA yn datgan na all gynghori ar nifer o faterion amgylcheddol yn amrywio o’r canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt: risg; gosodiad priodol y biblinell (gan gynnwys dyfnder); amddiffyn dŵr daear a dŵr wyneb; rheoli gwastraff a phriddoedd; a halogiad, gan gynnwys datrysiadau unioni posibl.<br>• Gofynnir i’r Ymgeisydd gyfiawnhau ei ymagwedd at ymdrin â’r ffactorau ansicr hyn ymhellach, ochr yn ochr â geiriad penodol y Gofynion sy’n berthnasol. |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| **11.** | **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | |
| Q3.11.1 | **Yr Ymgeisydd** | • A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a fyddai casgliadau'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRAR) a gyflwynwyd [APP-226] a ddiweddarwyd yn DL4 [REP4-243] yn cael eu newid ymhellach o ganlyniad i unrhyw newid(iadau) eraill sy'n cael eu hystyried yn yr Archwiliad? Os bwriedir eu newid, rhowch ddiweddariad.<br>• Mae'r ExA yn nodi, ar ôl i'r SoCG drafft gyda CNC gael ei gyflwyno [REP6-028], a dderbyniwyd yn DL6, y gallai'r Ymgeisydd fod wedi rhoi HRAR drafft wedi'i ddiweddaru i CNC sydd wedi mynd i'r afael â'u pryderon ynglŷn â phellteroedd gwasgaru madfallod dŵr cribog (GCN). Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod HRAR wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu hyn wedi cael ei gyflwyno i'r Archwiliad. A all yr Ymgeisydd egluro a darparu diweddariad i'r HRAR, fel y bo'n ofynnol? |
| **12.** | **Tirwedd a Gweledol** | |
| Q3.12.1 | *Nant Alltami*<br>**CNC**<br>**FCC**<br>**IPs** | • A yw IPs yn fodlon ag effeithiau tirwedd a gweledol yr opsiwn amgen sy'n gysylltiedig â chroesi Nant Alltami (h.y. y cynnig ar gyfer croesfan pibell ymgorfforedig), a gyflwynwyd i'r Archwiliad i'w ystyried? A oes gan CNC, FCC neu IPs farn ynglŷn â ph'un a yw'r Ymgeisydd wedi llwyr ystyried yr opsiwn hwn a chynnig mesurau lliniaru addas mewn perthynas ag ef, lle y bo'n briodol? |
| **13.** | **Adnoddau Mwynau** | |
| Q3.13.1 | **Dd/B** | • Dim rhagor o sylwadau ar yr adeg hon. |
| **14.** | **Sŵn a Dirgryniad** | |
| Q3.14.1 | **Dd/B** | • Dim rhagor o gwestiynau ar yr adeg hon. |
| **15.** | **Polisi Cynllunio** | |
| Q3.15.1 | **Yr Ymgeisydd** | • Mae ES Pennod 9 Paragraff 9.2.43 yn datgan '*Dylid nodi bod Cynllun Datblygu Lleol FCC 2015-2030 wedi cael ei fabwysiadu ar 24 Ionawr 2023. Mae'r polisïau <u>drafft</u> cyfredol canlynol sy'n berthnasol i asesu Datblygiad Arfaethedig y DCO yn cynnwys:-*<br>*- STR13: Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Rhwydweithiau a Seilwaith Gwyrdd;*<br>*- EN6: Safleoedd o Bwysigrwydd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth*<br>*- EN7: Datblygiad sy'n Effeithio ar Goed, Coetiroedd a Gwrychoedd*<br>*- EN11: Lletemau Glas'* |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | • Mae'r ExA yn tybio bod y gair 'drafft' wedi cael ei gynnwys ar gam. Er mwyn bod yn glir, a yw'r Ymgeisydd yn cytuno nad yw'r polisïau'n rhai drafft mwyach? |
| **16.** | **Effeithiau Economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys Iechyd y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** | |
| Q3.16.1 | **Dd/B** | • Dim rhagor o gwestiynau ar yr adeg hon. |
| **17.** | **Trafnidiaeth a Thraffig** | |
| Q3.17.1 | **Dd/B** | • Dim rhagor o gwestiynau ar yr adeg hon. |
| **18.** | **Rheoli Gwastraff** | |
| Q3.18.1 | **Dd/B** | • Dim rhagor o gwestiynau ar yr adeg hon. |
| **19.** | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft** | |
| Q3.19.1 | *Darpariaethau Amddiffynnol*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Rhowch ddiweddariad ar drafodaethau yn ymwneud â'r holl Ddarpariaethau Amddiffynnol na chytunwyd arnynt eto gyda'r IPs perthnasol. |
| Q3.19.2 | *Darpariaethau Amddiffynnol/ Adnoddau Dŵr*<br>**Yr Ymgeisydd**<br>**EA**<br>**CNC** | • Eglurwch y darpariaethau amddiffynnol sydd ar gael (ar gyfer adeiladu a gweithredu) i EA a CNC a fydd yn sicrhau na fydd y datblygiad yn peryglu cyflawni 'statws da' yn y dyfodol o dan yr WFD.<br>• Gofynnir i **EA** a **CNC** nodi'n benodol unrhyw beth arall y mae angen ei gynnwys yn y DCO i gyflawni'r nod uchod. |
| Q3.19.3 | *Gofyniad 4*<br>**CNC**<br>**EA**<br>**IPs**<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r ExA yn nodi bod yr Ymgeisydd yn ffafrio croesfan â ffos ar gyfer Nant Alltami ochr yn ochr â hyblygrwydd i weithredu croesfan pont bibell ymgorfforedig os bydd yr ExA, neu'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS), yn anghytuno â'r opsiwn croesi a ffefrir gan yr Ymgeisydd.<br>• A yw IPs yn fodlon â geiriad presennol Gofyniad 4 a fanylir yn DCO drafft yr Ymgeisydd [REP4-008] i hwyluso croesfannau gwahanol ar gyfer Nant Alltami?<br>• Os nad ydych yn fodlon â geiriad Gofyniad 4, nodwch y geiriad y dymunwch iddo gael ei gynnwys.<br>• A all yr Ymgeisydd gyfiawnhau geiriad Gofyniad 4 ymhellach pe byddai'r ExA neu'r SoS o'r farn bod y naill neu'r llall o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer croesi Nant Alltami yn anaddas? Mewn amgylchiadau o'r fath, sut mae'r DCO drafft presennol yn caniatáu i |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | opsiwn croesi anaddas gael ei negyddu/diystyru gan yr argymhelliad/ penderfynwr heb ymgynghori ar DCO argymelledig arall?<br>• Os canfyddir bod yr opsiynau a ffefrir gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd ar gyfer croesi Nant Alltami yn anaddas, mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu DCO drafft arall sy'n cynnwys yr opsiwn amgen yn unig (h.y. y groesfan pont bibell ymgorfforedig). |
| Q3.19.4 | *Gofyniad 9*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae Gofyniad 9(5) y DCO drafft [CR3-008] yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno adroddiad cadarnhau ar ôl cwblhau'r gwaith. Fodd bynnag, fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, ni fyddai angen i'r adroddiad cadarnhau gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio perthnasol. Adolygwch a diwygiwch, fel y bo angen, os gwelwch yn dda. |
| Q3.19.5 | *Gofyniad 16*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod yn bwriadu efelychu'r amodau sylfaenol '*cyn belled ag y bo'n ymarferol*' lle mae'r gwaith arfaethedig yn effeithio ar sianeli a glannau.<br>• Mae'r EA yn gofyn i ddarpariaethau gael eu cynnwys yn y REAC i sicrhau:<br><br>○ lle nad yw adfer i'r amodau sylfaenol yn 'ymarferol'; a<br>○ lle mae'r 'cyfryw amod arall', fel y nodir yng ngeiriad presennol Gofyniad 16 y DCO, yn cael ei weithredu,<br><br>y gallai mesurau digolledu ar gyfer cyrsiau dŵr/ strwythurau amddiffyn rhag llifogydd, y mae croesfannau â ffos arfaethedig yn effeithio arnynt, fod yn angenrheidiol ac yn cael eu sicrhau. Mae'r ExA o'r farn y byddai'r ymagwedd hon yn rhesymol.<br><br>• Gofynnir i'r Ymgeisydd:<br><br>○ Gadarnhau bod yr uchod wedi'i gynnwys yn y REAC.<br>○ Egluro'r diffiniad o 'gyfryw amod arall' ymhellach a chadarnhau pa fesurau digolledu a fydd yn cael eu hystyried os na chanfyddir bod adfer i'r amodau sylfaenol yn ymarferol;<br>○ Cadarnhau y bydd gwelliannau'n cael eu darparu, lle y bo'n bosibl, yn rhan o'r cynigion adfer, pan fydd croesfannau â ffos yn cael eu cynnig ar gyfer cyrsiau dŵr. |

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| | | ○ Rhoi manylion ynghylch sut bydd y mesurau uchod yn cael eu sicrhau gan y DCO drafft. |
| Q3.19.6 | *Gofyniad 18*<br>**Yr Ymgeisydd** | • Dylai'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu, fel y manylir yng Ngofyniad 18, gael ei gefnogi gan Asesiad WFD, lle y bo angen, i ddangos bod cynigion datgomisiynu'n cydymffurfio â'r WFD ac na fyddent yn niweidio dosbarthiad WFD nac yn rhwystro amcanion i gyflawni 'statws da'. A all yr Ymgeisydd gadarnhau ei fod yn cytuno â'r ymagwedd honno a diwygio'r Gofyniad, fel y bo'n briodol? |
| **20.** | **Arall** | |
| Q3.20.1 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd/ Llywodraeth Cymru** | • Cyhoeddwyd Bil Seilwaith (Cymru) ar 12 Mehefin 2023. Pa oblygiadau, os o gwbl, sy'n deillio o gyflwyno'r Bil hwn a'i daith drwy'r Senedd o ran ystyriaeth yr ExA o'r Cais DCO hwn neu gan yr SoS wedi hynny? Rhowch ymateb wedi'i resymu'n llawn.<br>• Nodir cyfeiriad at Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 sydd wedi'i chynnwys yn yr ES ym Mhennod 8 (Treftadaeth Ddiwylliannol). Fodd bynnag, derbyniodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Er na fydd y Ddeddf hon yn dod i rym nes y bydd is-ddeddfwriaeth ategol wedi'i gwneud, pa oblygiadau, os o gwbl, sy'n codi o'r Ddeddf hon mewn perthynas ag ystyriaeth ExAs o'r Cais DCO hwn? Darparwch ateb llawn rhesymeges gwelwch yn dda.<br>• Mae'r ExA yn nodi bod ymgynghoriad wedi dechrau ar strategaeth genedlaethol statudol gyntaf Cymru ar seinweddau, sy'n cadw ac yn mireinio negeseuon craidd Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018-2023. Mae hefyd yn tynnu sylw at ddatblygiadau mewn polisi a chanllawiau cynllunio a'r potensial ar gyfer Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11 newydd, ynghyd â chanllawiau dylunio seinwedd gysylltiedig, a allai arwain at ofyn am ddatganiadau dylunio sŵn a seinwedd. Pa oblygiadau, os o gwbl, sy'n codi o'r ddogfen ymgynghori hon mewn perthynas ag ystyriaeth ExAs o'r Cais DCO hwn? Darparwch ateb llawn rhesymeges gwelwch yn dda. |
| Q3.20.2 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd/ CNC** | • Mae'r ExA yn nodi bod y cais am Drwydded Forol (ML) wedi cael ei dynnu'n ôl ar gais CNC, er mwyn ei ailgyflwyno pan fydd y wybodaeth a gyflwynwyd yn wreiddiol mewn ffurf sy'n dderbyniol iddo. Rhowch ddiweddariad i'r ExA ynglŷn â chynnydd yr ML, pryd y bydd y cais ML yn cael ei ailgyflwyno a phryd y disgwylir y gallai'r ML gael ei chyhoeddi. |

**ExQ3: 15 Awst 2023**

**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mawrth 5 Medi 2023**

| ExQ3 | Cwestiwn ar gyfer: | Cwestiwn: |
|---|---|---|
| Q3.20.3 | *Gwybodaeth*<br>**Yr Ymgeisydd/ CWCC/ Rostons Ltd** | • Mae REP5-045 (Rostons Ltd) yn cyfeirio at y cyflwyniadau canlynol i CWCC: 22/04248 (Sgrinio EIA); a 23/01234 (Cyn-ymgeisio). Gofynnir i'r IPs a restrir roi diweddariad ynglŷn â'r cyflwyniadau hyn, gan gynnwys eu statws presennol, yn ogystal â darparu copïau o lythyrau, dogfennau a/ neu benderfyniadau perthnasol a roddwyd ynglŷn â'r cyflwyniadau hyn gan CWCC. Os nad oes modd cyflenwi'r eitemau hyn, esboniwch pam. |
| Q3.20.4 | *Diogelwch*<br>**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)** | • Ni dderbyniwyd ymateb i ExQ1 Q1.20.2 na Q1.20.3 na ExQ2 Q2.20.2 gan yr HSE. Mae'r ExA yn ei wahodd i ymateb nawr. Yn ogystal, byddai'r ExA yn gofyn p'un a yw'r HSE yn bwriadu dynodi'r datblygiad arfaethedig yn Biblinell Peryglon Damweiniau Mawr, neu ddynodiad tebyg, a fyddai'n creu parth ymgynghori gyda chyfyngiadau defnydd tir cysylltiedig? |